Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Tŷ Monmouth

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn ysgol lle mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio hynod effeithiol â disgyblion yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion emosiynol a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Trwy ddysgu proffesiynol gwerthfawr, mae staff yn datblygu medrau gwerthfawr, sy'n helpu cynorthwyo disgyblion i hunanreoli, datblygu eu medrau cymdeithasol a rheoli eu hymddygiad. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hyn, a thros gyfnod, yn ymgynefino'n dda yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a saff.

Mae strwythuro'r dosbarthiadau ar draws yr ysgol yn gyfnodau yn hytrach na grwpiau blwyddyn yn helpu sicrhau cydnawsedd personol a datblygiadol rhwng disgyblion. Mae meintiau dosbarthiadau yn fach, gydag uchafswm o 4 disgybl yn cael eu cynorthwyo gan o leiaf un athro ac un cynorthwyydd addysgu. Mae'r meintiau dosbarthiadau bach hyn yn golygu bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gallu darparu graddau uchel o gymorth buddiol ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her a ddarperir gan staff i gefnogi cynnydd disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol arweinyddiaeth gref sy'n goruchwylio gweithredu cwricwlwm priodol ac addysgu cadarn. Megis dechrau datblygu'r cwricwlwm ymhellach y mae arweinwyr i ddiwallu anghenion disgyblion hŷn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu camau nesaf mewn gwaith neu addysg. O ganlyniad i ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r cynnydd cryf a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau cymdeithasol ac mewn gwella'u presenoldeb a'u hymgysylltiad â dysgu yn nodwedd nodedig. Fodd bynnag, mae ffocws cyfyngedig ar addysgu a dysgu o fewn prosesau sicrhau ansawdd a dysgu proffesiynol ar gyfer staff.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o'r Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 i gynnal ei chofrestriad.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Mireinio prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio mwy ar addysgu a chynnydd disgyblion**

**A2 Parhau i ddatblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu galwedigaethol i gynorthwyo disgyblion i ddilyn eu llwybrau dysgu dymunol**

**A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn gyson**

**Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Rhaid i'r ysgol roi copi o'r adroddiad hwn neu grynodeb ohono i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol, hefyd.**

# Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.